Busnes Cymru | Business Wales

Canllaw Arfer Da

# Cefnogi Entrepreneuriaid Anabl yng Nghymru

Mae'r canllaw arfer da hwn wedi'i ddatblygu gan Anabledd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Rhagymadrodd

Mae'r canllaw arfer da hwn wedi'i ddatblygu gan Anabledd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol i sefydliadau cymorth busnes a chynghorwyr ar y ffordd orau o ymgysylltu â phobl anabl sy'n dechrau, cynnal neu dyfu eu busnes yng Nghymru. Er mwyn hysbysu a datblygu'r canllaw hwn, cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau un i un yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2021 gyda nifer o berchnogion busnes anabl. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar ffurf trafodaeth grŵp wedi'i hwyluso a oedd yn sail i brofiadau a safbwyntiau ar gyfer trafodaethau un i un gyda charfan bellach o bobl fusnes anabl. Cefnogwyd Anabledd Cymru gan y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chanolfan Cydweithredol Cymru i ddod o hyd i'r cyfweleion.



**Gall pobl anabl gynnig:**

- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl ochrol
- Dadansoddiad strategol
- 'persbectif gwahanol'

Roedd 416,600 o bobl anabl oedran gweithio (16-64) yng Nghymru yn 2019. Roedd hyn yn gyfystyr â 21.6% o'r boblogaeth oedran gweithio (StatsCymru, 2020). Mae hyn yn awgrymu y gallai cynghorwyr busnes fod yn cefnogi nifer sylweddol o bobl anabl bob blwyddyn, p'un a ydynt yn sylweddoli hynny ai peidio. Os yw data monitro amrywiaeth yn nodi niferoedd isel o bobl anabl yn datgelu eu hanabledd, yna efallai y bydd angen rhoi mwy o sylw i sut mae eich gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo. Mae cyfathrebu cynhwysol yn bwysig er mwyn i bobl anabl ymgysylltu â'ch gwasanaeth a theimlo'n gyfforddus i drafod eu gofynion gyda chi. Bydd y canllaw hwn yn eich cefnogi i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Archwiliodd Prosiect ar Entrepreneuriaeth Gynhwysol yr OECD gyfraddau hunangyflogaeth ymhlith pobl anabl (Kitching, J., 2004). Mae astudiaethau a nodwyd yn Ewrop a'r Unol Daleithiau yn awgrymu bod cyfraddau hunangyflogaeth yn uwch ymhlith pobl anabl na'r rheini sy ddim yn anabl. Roedd cyfraddau hunangyflogaeth yn amrywio yn ôl nodweddion entrepreneuriaid anabl megis eu nam, rhyw, lle maent yn byw ac addysg. Roedd pobl anabl a oedd â chyfyngiadau difrifol yn eu gweithgareddau pob dydd yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig na'r rhai a nododd rywfaint o gyfyngiad, neu ddim cyfyngiad o gwbl, ar eu gweithgareddau pob dydd.

Nododd Llywodraeth Cymru mai dim ond 45% o bobl anabl oedran gweithio yng Nghymru (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) oedd mewn cyflogaeth o gymharu â 79% o'r rheini sydd ddim yn anabl (Llywodraeth Cymru, 2019b). Roedd y bwlch hwn yn fwy ar gyfer pobl anabl sydd â dim, neu fawr ddim, cymwysterau a hefyd ar gyfer y rheini sydd â chyflyrau penodol, megis trallod meddyliol neu nifer o namau. Un ymateb i'r bwlch cyflogadwyedd hwn yw i bobl anabl gychwyn eu busnes eu hunain.

Mae'n bwysig nodi, er y gall entrepreneuriaid anabl gael profiadau cyffredin na rennir gan entrepreneuriaid nad ydynt yn anabl, mae'r amrywiaeth o namau y maent yn eu profi yn creu gwahaniaethau sylweddol yn y gofynion sydd ganddynt. Efallai y bydd pobl anabl sydd â'r un nam yn gweld bod hyn yn effeithio arnynt mewn ffyrdd gwahanol iawn. Gall namau neu gyflyrau gynnwys:

- Synhwyraidd (gan gynnwys dallineb neu nam ar y golwg, byddardod neu fod yn drwm eu clyw)
- Salwch hirdymor (cronig)
- Nam corfforol sy'n effeithio ar symudedd neu ddeheurwydd
- Trallod meddyliol
- Anhawster dysgu neu anabledd
- Bod yn niwrowahanol

Er y bydd llawer o bobl yn teimlo bod cychwyn eu busnes eu hunain yn heriol, mae pobl anabl yn aml yn sôn am heriau neu rwystrau ychwanegol. Gall y rhesymau amrywio o'r angen i reoli eu nam i gael eu rhwystro gan ganfyddiadau cymdeithas o'r hyn y gallant neu na allant ei wneud. Ystyriaeth i heriau o'r fath fydd prif ffocws y canllaw hwn.



# Themâu a Chynghorion Arfer Da

Mae'r canllaw hwn yn dilyn patrwm cyson.
Mae pob adran yn cyflwyno thema drwy archwilio arfer da. Efallai y darlunnir y thema gyda stori unigolyn er mwyn cynorthwyo i gysylltu'r thema â bywyd go iawn. Er bod y storïau yn rhai go iawn, mae'r enwau wedi eu newid er mwyn parchu preifatrwydd y cyfranwyr.

Mae pob adran yn gorffen gyda chasgliad o Gynghorion Ymarferol i helpu sefydliadau a chynghorwyr cymorth busnes i drosi'r pynciau a archwiliwyd yn arfer.

**Y themâu yn y canllaw hwn yw:**

- Gwybodaeth a Chyngor Busnes
- Busnesau Ffordd o Fyw neu Dwf Uchel?
- Cyrchu Cyllid
- Materion Ariannol Ehangach
- Hyfforddiant a Digwyddiadau
- Mentora a Rhwydweithio
- Mynediad

# Gwybodaeth a Chyngor Busnes

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan IFF Research, Ysgol Fusnes Brighton ac Ysgol Fusnes Kingston ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) (Adams et al, 2019) fod cymorth i fusnesau pobl anabl yn fwyaf cyffredin trwy deulu a ffrindiau. Er ei bod yn bosibl y gall y rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol hyn ddarparu cyngor gwerthfawr, mae'n hanfodol i sefydliadau cymorth busnes sicrhau bod pob agwedd ar waith gyda chleientiaid yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn ddiduedd fel bod gan entrepreneuriaid anabl yr un gefnogaeth o ansawdd uchel ar gael iddynt ag sydd ar gael i entrepreneuriaid nad ydynt yn anabl.

Credir, yn anghywir yn aml, bod trin pob unigolyn neu fusnes yn yr un ffordd yn union yn galluogi gwasanaeth cynghori a chymorth i sicrhau nad oes tuedd ac felly'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Fodd bynnag, mae bod yn gynhwysol a gallu cefnogi pob entrepreneur yn effeithiol yn gofyn am ymwybyddiaeth o sut y gall ffactorau fel materion mynediad neu nam neu gyflwr unigolyn effeithio ar sut mae angen iddynt redeg eu busnes.

Bydd mabwysiadu dull o gynwysoldeb sy'n ystyried y gofynion unigryw a allai fod gan entrepreneuriaid anabl, a'r heriau y maent yn eu hwynebu yn aml, yn caniatáu i chi ddarparu gwasanaethau effeithiol a gwirioneddol deg.

Mae bod yn hyblyg yn sut rydych yn darparu'ch gwasanaethau yn cefnogi pobl anabl i gael mynediad at eich gwasanaethau. Er enghraifft, gall cynnal ymgynghoriadau dros y ffôn yn unig neu drwy gyfarfodydd personol yn unig atal pobl anabl rhag defnyddio'ch gwasanaethau os nad yw'r dulliau hynny o gyfathrebu yn hygyrch iddynt. Bydd cynnig amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, a chaniatáu i'ch cleient ddewis y dulliau sy'n addas i'w anghenion, yn sicrhau nad yw eich gwasanaethau'n gwahaniaethu'n anfwriadol.

Mae iaith yn aml yn bryder i bobl sy'n gweithio â phobl anabl. Nid oes unrhyw un eisiau peri tramgwydd. Ond beth sy'n gyfystyr ag iaith dderbyniol?

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd fel y fframwaith ar gyfer deall a thrafod anabledd. Datblygwyd y Model Cymdeithasol gan bobl anabl. Mae'n cyferbynnu â'r Model Meddygol o Anabledd. Mae'r Model Cymdeithasol yn ystyried pobl i fod yn anabl nid oherwydd eu namau neu eu cyflyrau ond oherwydd y rhwystrau sy'n eu hwynebu mewn cymdeithas, megis mynediad gwael ac agweddau negyddol. Yr ateb yw cael gwared ar y rhwystrau hynny i wneud cymdeithas yn fwy hygyrch a chynhwysol. Felly, mae creu cydraddoldeb i bobl anabl yn gyd-gyfrifoldeb. Mewn cyferbyniad, mae'r Model Meddygol yn awgrymu nam neu gyflwr unigolyn yw achos yr anabledd a bod angen i anghenion yr unigolyn gael eu 'datrys' er mwyn gweithredu'n well mewn cymdeithas.

Beth am edrych ar enghraifft syml yng nghyd-destun busnes i ddangos y gwahaniaeth rhwng y ddau safbwynt. Dull model cymdeithasol fyddai sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau hygyrch a gofynnir i bawb ymlaen llaw a oes ganddynt ofynion mynediad, a allai gynnwys amseriad cyfarfodydd. Byddai safbwynt y model meddygol yn tybio bod pawb sy'n mynychu cyfarfod ddim yn anabl, ac nad oes ganddynt ofynion o ran mynediad, a bod unrhyw un sy'n ei chael hi'n anodd mynychu neu gymryd rhan yn peri problem i eraill.

Mae'r Model Cymdeithasol wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n sail i'w strategaeth a'i ddull ar gyfer llunio polisi, a fynegwyd yn fwyaf diweddar yn 'Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol - Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Ystyrir mai'r arfer gorau yw defnyddio iaith sy'n adlewyrchu'r Model Cymdeithasol wrth weithio â phobl anabl. Er enghraifft, byddai'n cydnabod pobl fel rhai sydd â nam neu gyflwr neu fod yn berson anabl a pheidio â chyfeirio atynt fel 'bod ag anabledd'.

Fodd bynnag, nid yw pob unigolyn sydd â nam yn cadw at y Model Cymdeithasol nac yn ystyried eu hunain yn berson anabl. Mewn achos o'r fath, dylai eich iaith adlewyrchu iaith eich cleient. Er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl sydd wedi bod yn fyddar ers genedigaeth yn cyfeirio at eu hunain fel person Byddar a pheidio ag ystyried eu hunain yn berson anabl. Efallai mai iaith arwyddion yw eu hiaith gyntaf a Saesneg yw eu hail iaith. Efallai y bydd y ffordd y byddai pobl Fyddar yn disgwyl cael eu trin yn debyg i sut y byddai siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn disgwyl cael eu trin yng Nghymru - nhw sydd i benderfynu ar eu dewis iaith.

Os symudwn y tu hwnt i'r iaith a ddefnyddir gennym i gyfeirio at bobl anabl, mae ymchwil yn awgrymu y gall peth o'r iaith a ddefnyddir yn gyffredin mewn cylchoedd cymorth busnes fod yn annymunol i bobl anabl. Mae Briff Polisi ar Entrepreneuriaeth i Bobl sydd ag Anableddau yr OECD / UE yn rhoi enghraifft o'r term entrepreneur. Nid yw llawer o bobl anabl yn uniaethu â'r term oherwydd nad ydynt yn gweld eu hunain yn arloesol nac yn manteisio ar gyfle (Halabisky a Potter, 2014).

Yn gysylltiedig ag iaith mae'r maes moesau. Efallai y bydd pobl anabl yn cael eu cefnogi gan gynorthwyydd personol a phobl fyddar yn cael cefnogaeth dehonglydd iaith arwyddion neu balanteipydd mewn cyfarfodydd. Os mai'r unigolyn anabl yw'r cleient, dylid cyfeirio ato ef/ati hi felly, a dylai unrhyw gyfathrebu gael ei gyfeirio ato/ati yn hytrach na'r cynorthwyydd neu'r dehonglydd.

Yn wir, mae iaith yn fwy na geiriau. Mae angen cadw hyn mewn cof wrth gynllunio gwybodaeth neu ddeunyddiau marchnata. Mae'n bwysig bod y delweddau a ddefnyddir yn cynrychioli'r grwpiau cleientiaid amrywiol y gallai fod gennych, gan gynnwys pobl anabl.

Yn olaf, gall fod yn ddefnyddiol deall y gallai rhai pobl anabl brofi heriau penodol yn ymwneud â llawer o elfennau ymarferol rhedeg busnes. Er enghraifft, gallai perchnogion busnes sydd â nam ar eu golwg, sydd ag ADHD, neu sydd â dyslecsia, deimlo bod dyletswyddau trefniadol a gweinyddol rhedeg busnes yn arbennig o heriol oherwydd diffyg fformatau hygyrch ar gyfer gwahanol ffurflenni neu anhyblygrwydd yn y prosesau ymgeisio. Yn gysylltiedig â hyn, gall problemau godi drwy dybio bod gan bawb fynediad at ddeunyddiau ar-lein neu y gallant weithio ar-lein. Er y gall rhai pobl anabl, sydd efallai â nam symudedd elwa gan fynediad gwell drwy ymgysylltiad digidol, gall pobl anabl eraill gael eu hallgau'n ddigidol - efallai rhywun sydd â nam ar ei olwg. Mae'n bwysig ystyried sut y gall yr anawsterau hyn effeithio ar eich cleientiaid anabl a bod yn hyblyg yn eich dull ar gyfer eu cefnogi.

[1] Weithiau bydd dogfennau'n cyfeirio at bobl b/Byddar. Efallai y bydd pobl sydd wedi'u geni'n fyddar ac sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu hiaith gyntaf gyfeirio atynt eu hunain fel pobl Byddar lle byddai pobl sydd wedi mynd yn fyddar yn cyfeirio atynt eu hunain fel byddar neu drwm eu clyw neu nam ar y clyw.



# Stori David

Roedd David yn berson cyflogedig am lawer o'i fywyd gwaith. Oherwydd dyslecsia a dyspracsia na ddiagnosiwyd, roedd yn cael trafferth gyda gwaith papur ac yn aml byddai'n cael ei ddisgyblu am beidio â dychwelyd taflenni amser a threuliau mewn pryd. Ar ôl gadael sawl swydd oherwydd y frwydr hon gyda gwaith papur, aeth David i fyd hunangyflogaeth a sefydlu ei gwmni cynhyrchu ffilmiau ei hun. Cafodd lwyddiant 100% mewn ennill comisiynau y gwnaeth gais amdanynt.

Fodd bynnag, mae David wedi wynebu llawer o rwystrau fel entrepreneur sydd â dyslecsia a dyspracsia. Wrth i'r sector cyhoeddus ddod yn fwyfwy dibynnol ar y broses dendro, roedd yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny ac nid oedd cefnogaeth ar gael i'w helpu i ysgrifennu tendrau a ffeilio gwaith papur.

O ganlyniad, newidiodd David gyfeiriad a sefydlu busnes ymgynghori yn canolbwyntio ar ymarfer cynhwysol a niwrowahaniaeth. Fodd bynnag, oherwydd yr heriau a wynebodd gyda gwaith papur, fe aeth ar ei hôl hi gyda ffurflenni cyllid y wlad ac nid oedd yn gallu hawlio unrhyw gymorth pan gyrhaeddodd y pandemig coronafeirws.

Gan ystyried ei brofiadau gyda sefydliadau cymorth busnes, teimlai David nad oedd llawer o waith dilyn i fyny yn aml ac ni chymerwyd unrhyw gamau ar ôl i'r cyfarfodydd ddod i ben. Nid oedd yn teimlo y gallai gyfaddef wrth gynghorydd busnes fod angen help arno i ysgrifennu a chyflwyno tendrau, sefydlu strwythur o ran cyfarwyddwyr nac ysgrifennu'r polisïau y mae angen i fusnes eu cael er mwyn cael ei ystyried ar gyfer contractau.



# Cynghorion Ymarferol

- Mae pobl anabl yn gyfrifol am 21.6% o'r boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru ac yn cael eu gorgynrychioli mewn hunangyflogaeth. Tybiwch fod gennych gleientiaid anabl, waeth a ydynt yn uniaethu'n anabl ai peidio.

- Defnyddiwch iaith y Model Cymdeithasol o Anabledd fel eich iaith ddiofyn.

- Ni fydd pob person anabl yn uniaethu felly. Gwrandewch ar yr iaith mae pobl yn ei defnyddio amdanynt eu hunain ac adlewyrchwch yr iaith honno wrth gyfathrebu â hwy.

- Efallai na fydd person anabl yn cyhoeddi ei nam neu ei gyflwr. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gofyn a oes ganddo ef/ganddi hi unrhyw ofynion o ran mynediad neu anghenion penodol os ydych chi'n trefnu cyfarfod neu gysylltiad cyntaf.

- Ni fydd pob person anabl yn ymwybodol o'r math o gefnogaeth a allai fod o fudd iddynt. Byddwch yn ymwybodol o sefydliadau i gyfeirio atynt neu geisio arbenigedd ganddynt wrth gynghori'ch cleient.

- Ystyriwch yr amrywiaeth o namau a chyflyrau y gall pobl anabl eu profi. Sut allech chi addasu'r modd yr ydych yn darparu'ch gwasanaethau i sicrhau eu bod ar gael i grŵp cleientiaid mor amrywiol â phosib? Cynhwyswch nodweddion hygyrchedd yn eich deunydd hyrwyddo, digwyddiadau byw a gwasanaethau eraill o'r cychwyn cyntaf. Ffactorwch nodweddion hygyrchedd fel rhan o gost y gwasanaethau hynny. Mae yna adran gyfan o gynghorion ynglŷn â mynediad yn ddiweddarach yn y canllaw hwn.

- Byddwch yn hyblyg yn eich dull ar gyfer cyfarfodydd a pheidiwch â dehongli achosion o ganslo neu oedi fel diffyg diddordeb neu benderfyniad. Gall iechyd cyfnewidiol beri llawer o heriau i entrepreneuriaid anabl ac nid yw methu â mynychu o reidrwydd yn adlewyrchu unrhyw beth heblaw eu hiechyd cyfnewidiol.

- Lle bynnag y bo modd, cynigiwch gyfle i entrepreneuriaid anabl ymgysylltu â'ch gwasanaethau o bell. Gall teithio i leoliadau neu hyd yn oed adael y tŷ beri anhawster i rai entrepreneuriaid anabl ac mae rhoi'r opsiwn i gyfathrebu o bell neu fynychu yn gwella'r tebygolrwydd y byddant yn cymryd rhan.

- Pan fyddwch yn ymwybodol o hyfforddiant neu ddigwyddiadau sy'n targedu'r anghenion penodol y nodir fel rhai cyffredin ymhlith entrepreneuriaid anabl, gwnewch yn siŵr bod y digwyddiadau hyn yn cael eu hyrwyddo i'ch cleientiaid anabl.

- Ystyriwch gynhyrchu neu roi cyhoeddusrwydd i wybodaeth a chefnogaeth sydd wedi'i theilwra'n benodol i anghenion pobl anabl.

- Meddyliwch am sut y gallai eich sefydliad ddefnyddio iaith yn eich deunydd marchnata i fwrw rhwyd ehangach ac ennyn diddordeb pobl nad ydynt efallai'n ystyried eu hunain yn 'anabl' neu'n 'entrepreneuriaid'. Gallai hyn gynnwys iaith wedi'i seilio ar fod yn hunangyflogedig neu'n berchen ar fusnes yn hytrach na bod yn entrepreneur a chynnwys pobl sydd â chyflyrau iechyd hirdymor.

- Darparwch fformatau amgen a hygyrch ar gyfer eich holl ddeunydd, fel fersiynau hawdd eu darllen a braille ar gyfer deunydd testun, a darparu Iaith Arwyddion Prydain a/neu gapsiynau caeedig ar gyfer deunydd fideo. Sicrhewch fod fersiynau o ddogfennau y gellir eu darllen gan sgrin neu feddalwedd testun i lais yn bodoli.

- Siaradwch yn uniongyrchol â'ch cleient yn hytrach na mynd drwy unrhyw gynorthwyydd personol neu ddehonglydd.

- Defnyddiwch ddelweddau yn eich gwybodaeth a'ch deunyddiau marchnata sy'n dangos i bobl anabl ei fod yn berthnasol iddynt hwy.

- Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod cleient yn anhrefnus os yw'n ymddangos ei fod yn cael trafferth gyda gwaith papur neu'n methu terfynau amser. O bosibl ei fod yn berson anabl a allai elwa gan gymorth ychwanegol.

- A allwch chi gysylltu'ch cleientiaid i fathau eraill o gefnogaeth a allai eu galluogi i ddatblygu strategaethau neu sgiliau i weithio'n fwy effeithiol gyda'u harddulliau dysgu?

# Dyheadau – Busnesau Ffordd o Fyw neu Dwf Uchel?

Awgrymodd Briff Polisi Entrepreneuriaeth i Bobl sydd ag Anableddau OECD / UE (Halabisky a Potter, 2014) y gallai entrepreneuriaid anabl fod â diffyg hyder neu fod â dyheadau cyfyngedig oherwydd afiechyd meddwl neu fod teulu a ffrindiau yn eu hannog i beidio â chychwyn neu gynnal eu busnes. Ffactor arall, i'w thrafod yn nes ymlaen, yw'r hyn y cyfeirir ato'n gyffredin fel y trap budd-daliadau. Mae hyn yn disgrifio pobl anabl sydd ofn colli budd-daliadau anabledd oherwydd hunangyflogaeth. Gall beri i rai entrepreneuriaid anabl fod yn bryderus ynglŷn â thyfu eu busnes.

Gall rhai sefydliadau cymorth busnes awgrymu bod busnesau twf uchel yn ddyhead naturiol a bod busnesau ffordd o fyw mewn rhyw ffordd yn israddol. Gall dull o'r fath ddieithrio rhai pobl anabl y gallai dim ond ennill bywoliaeth gael ei ystyried yn ddyhead heriol. Efallai y bydd rhai pobl yn dymuno ennill digon o arian i fod yn ddiogel ac i redeg eu busnes mewn ffordd sy'n rhoi boddhad iddynt ac mae hyn yn hollol ddilys. Yn yr un modd, dylid cefnogi pobl anabl sy'n dymuno tyfu busnesau cystadleuol.

Mae corff eang o ymchwil (e.e. Adams et al, 2019; Mota et al., 2020) yn awgrymu bod pobl anabl yn aml yn creu eu busnes eu hunain oherwydd ei bod yn anodd sicrhau cyflogaeth. Mae hunangyflogaeth yn cynnig y sicrwydd o ddiogelwch ariannol a'r hyblygrwydd sydd ei angen ar bobl anabl i gymryd rhan yn y farchnad lafur. Fodd bynnag, gall dod yn hunangyflogedig drwy reidrwydd yn hytrach na dewis neu angerdd am y busnes arwain at bobl anabl yn llai parod ar gyfer hunangyflogaeth na rhai grwpiau eraill o bobl.

Serch hynny, gall rhedeg busnes fod yn beth cadarnhaol ynddo'i hun, waeth beth yw ei faint. Un o ganfyddiadau allweddol astudiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau oedd bod rhai busnesau sy'n cael eu rhedeg gan entrepreneuriaid anabl ar y ffin o ran hyfywedd ariannol, yn nodweddiadol oherwydd cyfnodau o boen, blinder neu iechyd meddwl gwael gan arwain at gyfnodau cyfnewidiol o waith ac incwm cysylltiedig. Awgrymodd yr astudiaeth fod y mwyafrif o bobl anabl a oedd yn hunangyflogedig yn cael eu categoreiddio fel pobl sy'n ei chael hi'n anodd (yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn) neu dim ond yn goroesi (yn ennill rhwng £10,000 a £25,000). Gweddol fach oedd yn y grŵp ffyniannus a oedd yn ennill mwy na £25,000 y flwyddyn.

Mae hyn yn cysylltu'n ôl i sail dystiolaeth gref y gall gwaith priodol ddod â budd o ran iechyd a lles trwy ddiwallu nid yn unig anghenion economaidd ond rhai seicolegol a chymdeithasol hefyd (Waddell a Burton, 2006). Er gwaethaf hyn, canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Boyland a Burchardt (2003) ar gyfer y Gwasanaeth Busnesau Bach bod rhai sefydliadau cymorth busnes yn annog pobl anabl i beidio â chychwyn eu busnes eu hunain.

Ymgynghorwyd â chynghorwyr busnes sy'n aml yn cefnogi pobl anabl i gychwyn busnes wrth ddatblygu'r canllaw hwn. Gwnaethant atgyfnerthu canfyddiad a nodwyd gan Drakopoulou-Dodd (2015) o Brifysgol Strathclyde y gall 'targedau canlyniadau caled a modelau dilyniant llinol a ddefnyddir gan ddarparwyr cymorth beri problemau.' Yn syml, gall nam neu gyflwr unigolyn anabl olygu bod cychwyn busnes yn arafach a llawer llai rhagweladwy. Efallai y bydd angen iddynt gymryd seibiannau wrth ddatblygu cynllun busnes neu wrth ddarparu eu gwasanaethau er mwyn rheoli cyflwr iechyd. Gall cydbwyso hyn â strwythurau cyllido cymorth busnes neu fetrigau cynnydd fod yn heriol. Fodd bynnag, mae goresgyn heriau o'r fath yn gwbl unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran hybu Cymru fwy cyfartal, iach a llewyrchus.

Awgrymodd briff polisi'r OECD / UE y cyfeiriwyd ato'n gynharach (Halabisky a Potter, 2014) fod entrepreneuriaid anabl yn nodi bod y diwylliant blychau ticio sy'n gysylltiedig â rhai rhaglenni cymorth busnes yn arbennig o annefnyddiol. Ategwyd hyn gan gynghorwyr busnes y cyfwelwyd â hwy fel rhan o ddatblygu'r canllaw hwn. Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod angen cymorth sy'n hirdymor ac yn hyblyg yn hytrach na rhaglenni cymorth sydd wedi'u cynllunio i symud ymlaen yn gyflym i'r prosiect neu'r cleient nesaf.

Awgrymodd yr astudiaeth uchod fod gwahaniaethu ar sail defnyddwyr hefyd yn ffactor sy'n wynebu pobl anabl wrth dyfu eu busnesau. Mewn rhai achosion, arweiniodd stereoteipiau am bobl anabl at gamddealltwriaeth, diffyg diddordeb a gwahaniaethu gan ddefnyddwyr, darpar bartneriaid a gwasanaethau cymorth.

Gallwch weithio gyda'ch cleientiaid anabl i greu cynigion a chynlluniau busnes cadarnhaol sy'n herio stereoteipiau negyddol ac yn dangos y cryfderau y gall eu profiad mewn bywyd eu cynnig i redeg busnes. Nid oes rheswm pam na all bod yn berson anabl fod yn rhan o Bwynt Gwerthu Unigryw unigolyn.

# Cynghorion Ymarferol

- Byddwch yn ymwybodol o ofynion cymorth a all fod yn llai amlwg, megis diffyg hyder oherwydd diffyg anogaeth gan deulu a ffrindiau.
- Gall dyheadau a chymhellion pobl anabl sy'n sefydlu busnes fod yn wahanol i'r rhai sydd gan bobl nad ydynt yn anabl ond maent yr un mor ddilys.
- Datblygwch gymorth wedi'i deilwra ar gyfer entrepreneuriaid anabl a fydd yn darparu ar gyfer eu gofynion unigryw.
- Byddwch yn barod i fod yn fwy hyblyg yn eich dull gydag entrepreneuriaid anabl a byddwch yn ymwybodol o'r heriau penodol y gall afiechyd hir neu ddiffyg mynediad at wasanaethau eraill eu peri i gychwyn neu dyfu busnes.
- Mae addasu eich gwasanaethau i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch yn dangos cydnabyddiaeth bod mesurau o'r fath yn angenrheidiol i liniaru'r rhwystrau cymdeithasol ychwanegol y mae pobl anabl yn eu profi mewn hunangyflogaeth.

# Cyrchu Cyllid

Mae cyrchu cyllid yn hollbwysig i alluogi cychwyn busnes a thyfu busnes. Gall sicrhau mynediad at gyllid priodol fod yn heriol i unrhyw entrepreneur ond gall entrepreneuriaid anabl wynebu heriau ychwanegol, yn ôl Boylan a Burchardt (2003).

Efallai y bydd gan bobl anabl statws credyd gwael oherwydd eu bod wedi cael cyfnodau heb gyflogaeth er mwyn rheoli eu cyflyrau a/neu am eu bod yn derbyn budd-daliadau anabledd. Efallai y bydd rhai pobl anabl hefyd wedi cymryd benthyciadau oherwydd oedi cyn derbyn taliadau budd-daliadau. Gall statws credyd gwael, efallai ynghyd â diffyg diddordeb neu wahaniaethu gan rai banciau, gynyddu'r her o gael gafael ar gyfalaf cychwynnol ar gyfer entrepreneuriaid anabl. Fel sefydliadau cymorth busnes mae'n bwysig ystyried yr heriau ychwanegol hyn y gallai entrepreneuriaid anabl eu hwynebu wrth gychwyn eu busnes.

Er bod rhai entrepreneuriaid yn cychwyn eu busnesau gan ddefnyddio cynilion personol neu fenthyciadau gan deulu neu ffrindiau, mae cyfraddau tlodi uwch ymhlith y boblogaeth anabl yn golygu y gallai opsiynau o'r fath fod yn fwy cyfyngedig. Canfu adroddiad ymchwil diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) fod 31% o bobl anabl yn y DU yn byw mewn tlodi yn 2017-18, o gymharu ag 20% ymhlith y boblogaeth nad ydynt yn anabl (Barry et al, 2020).

Mae adroddiad JRF yn awgrymu y gall amrywiaeth o ffactorau roi pobl anabl mewn mwy o berygl o dlodi. Gall pobl anabl wynebu costau byw uwch, cyfraddau cyflogaeth is, maent yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn swyddi cyflog isel ac yn llai tebygol o ennill cymwysterau lefel uwch, megis graddau, na chymheiriaid nad ydynt yn anabl. Mae'r ffactorau hyn yn deillio o wahaniaethu ac allgau ym mhob elfen o fywyd, o addysg i gyflogaeth, tai i drafnidiaeth a mynediad at gymorth iechyd a gofal cymdeithasol amserol.

Efallai mai hunangyflogaeth yw'r unig ddewis i wneud bywoliaeth pan fydd cyflogaeth Talu Wrth Ennill wedi bod yn anhygyrch. Nid yw hyn oherwydd methiant ar ran cleient anabl ond oherwydd cyflogwyr sydd ddim yn barod i addasu sut maent yn disgwyl i'w staff weithio a 'ffitio i mewn', ac felly ddim yn cydnabod y gwerth posibl y gall pobl anabl ei gynnig i'r gweithle.

Mater arall a allai ei gwneud hi'n anodd i entrepreneuriaid anabl gael gafael ar gyfalaf cychwynnol neu gyfalaf i dyfu yw diffyg gwybodaeth hygyrch am fenthyciadau a grantiau (Adams et al., 2019). Nid yw llawer o'r gwasanaethau cymorth ariannol sydd wedi'u hanelu at bobl anabl yn addas ar gyfer hunangyflogaeth neu efallai nad ydynt yn ei annog. Yn y cyfamser, gall grantiau a rhaglenni prif ffrwd ar gyfer cymorth busnes nad ydynt yn cael eu darparu mewn fformatau megis braille neu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) allgau'n anfwriadol gyfran sylweddol o entrepreneuriaid anabl a allai elwa gan y gwasanaethau neu'r grantiau hyn.

# Cynghorion Ymarferol

- Mae wynebu gwahaniaethu a disgwyliadau isel dro ar ôl tro yn peri straen ac yn niweidiol i hyder pobl anabl. Ceisiwch osgoi gwneud rhagdybiaethau am sgiliau a galluoedd eich cleient.
- Ceisiwch ddarparu gwasanaeth sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol trwy ganfod ac adeiladu ar gryfderau a bod yn gadarnhaol ynglŷn â dod o hyd i atebion i'r rhwystrau y mae entrepreneuriaid anabl yn eu hwynebu.
- Byddwch yn ymwybodol o'r heriau ariannol penodol y gall entrepreneuriaid anabl eu hwynebu wrth geisio cychwyn neu gynnal eu busnes ac ystyriwch y rhain wrth weithio i'w cefnogi.
- Gwnewch yn siŵr fod gennych nodau ariannol hyblyg i gyd-fynd â dyheadau eich cleient a chydnabod y gall rhai ffactorau sy'n cyfyngu ar botensial o ran twf fod yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl i'ch cleient eu lliniaru, megis iechyd cyfnewidiol sy'n effeithio ar eu gallu o ran allbwn neu wahaniaethu gan ddefnyddwyr sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ac a fydd efallai'n atal twf.

# Stori Carol

Ganwyd Carol â Pharlys yr Ymennydd. Er ei bod am sefydlu ei busnes ei hun, dywedodd ei hysgol wrthi na fyddai hynny'n bosibl oherwydd ei chyflwr. Felly ymunodd â'r Gwasanaeth Sifil a chael gyrfa hynod lwyddiannus nes bod angen iddi ymddeol ar ôl cyfres o lawdriniaethau meddygol.

CNid oedd Carol am ddibynnu ar fudd-daliadau, felly gofynnodd i ddwy asiantaeth gymorth leol am help. Nid oedd y naill na'r llall yn teimlo y gallent ei helpu, gan nodi ei chyflwr fel y rheswm dros hynny.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, aeth Carol ymlaen i fod yn entrepreneur, gan gychwyn, tyfu a gwerthu nifer o fusnesau dros y 14 mlynedd diwethaf. Hyd yn oed gyda'i hanes llwyddiannus, mae Carol wedi ei chael yn anodd cael pobl i fuddsoddi yn ei busnesau unwaith y byddant yn darganfod ei bod yn berson anabl.

Gofynnir yn aml i Carol pam ei bod yn gweithio. Yn ei phrofiad hi, mae yna gred gyffredin yn y DU nad yw hunangyflogaeth yn opsiwn ymarferol i bobl anabl. Mae'n ymddangos bod hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â'r hyn sy'n bosibl ac nad sy'n bosibl:

"Mae yna dybiaeth nad yw rhywun sy'n gweithio o'u gwely yn gynhyrchiol, ond nid yw hynny o reidrwydd yn wir. Gall pobl anabl weithio mewn gwahanol ffyrdd i bobl nad sy'n anabl."



# Materion Ariannol Ehangach

Gall y rhagolwg o golli incwm sefydlog, waeth pa mor isel ydyw, er mwyn cychwyn busnes fod yn rhywbeth sydd ddim yn apelio at lawer o bobl. Gall y broblem fod yn fwy amlwg i bobl anabl.


Mae llawer o bobl anabl yn derbyn rhyw fath o fudd-dal lles oherwydd bod eu hincwm yn isel a / neu eu bod yn wynebu costau ychwanegol wrth reoli goblygiadau eu nam neu eu cyflwr. Mae derbyn rhai budd-daliadau lles yn gysylltiedig â mathau eraill o gefnogaeth megis budd-dal tai ac eithriad i'r dreth gyngor.

**Gall budd-daliadau cyffredin gynnwys:**

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)
- Credyd Cynhwysol
- Credyd Treth Gwaith
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Taliadau Uniongyrchol (drwy Awdurdodau Lleol)

Awgrymodd pobl anabl a gafodd eu cyfweld wrth ddatblygu'r canllaw hwn fod y trap budd-daliadau yn fater real iawn. Mae wedi cael ei gydnabod mewn ystod eang o astudiaethau yn amrywio o un yr Adran Gwaith a Phensiynau i un yr OECD (e.e. Adams et al., 2019; Kitching, 2014).

Mae cael budd-daliadau yn dueddol o fod yn waith caled, weithiau ar ôl prosesau apelio sy'n achosi straen ac yn sugno'r egni. Gall y rhagolwg o golli incwm rheolaidd i lansio busnes a allai gynhyrchu incwm isel neu ysbeidiol fod yn frawychus. Arswyd oedd y ffordd orau i lawer o bobl anabl a gafodd eu cyfweld ddisgrifio'r rhagolwg o orfod ail wneud cais am fudd-daliadau pe bai eu hincwm yn amrywio.



Mewn egwyddor, gall ESA ac i raddau mwy Credyd Cynhwysol ddarparu ar gyfer incwm cyfnewidiol sy'n gyson ag incwm busnes cyfnewidiol. Yn ymarferol, mae pobl anabl yn awgrymu y gall y system eu gadael ag incwm is neu hyd yn oed dim incwm o gwbl am gyfnodau o wythnosau neu fisoedd. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau prosiectau ymchwil mwy trylwyr (e.e. Tucker a Norris, 2018). Wrth ddarparu cymorth busnes i bobl anabl, ni ddylid diystyru ofnau ynghylch colli budd-daliadau neu gael incwm afreolaidd.

Gall rhai cleientiaid ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol neu gyrchu budd-daliadau megis Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliad Annibyniaeth Personol (PIP). Diben y mathau hyn o gefnogaeth yw eu cynorthwyo yn eu bywydau pob dydf. Gall hyn gynnwys talu am ofal cymdeithasol neu gostau ychwanegol fel offer cynorthwyol yn y cartref neu gludiant hygyrch.

# Cynghorion Ymarferol

- Gwrandewch ar bryderon cleientiaid anabl ynglŷn â'r posibilrwydd o golli budd-daliadau. Peidiwch â diystyru eu pryderon yn syml trwy ddweud, 'Dylai'r system eich cefnogi'. Efallai y bydd, ond yn yr un modd mae digon o dystiolaeth i awgrymu y gall problemau godi yn ymarferol.

- Ceisiwch gael gwerthfawrogiad sylfaenol o'r prif fudd-daliadau lles sy'n berthnasol i bobl anabl mewn gwaith:

  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) **https://www.gov.uk/employment-support-allowance/working-while-you-claim**

  - Credyd Treth Gwaith **https://www.gov.uk/working-tax-credit**

  - Dros amser, mae'r rhain yn cael eu disodli gan - Credyd Cynhwysol **https://www.gov.uk/universal-credit**

    Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn argymell y dylid gwneud ymholiadau dros y ffôn i'r Ganolfan Waith leol ond mae llinell gyngor ganolog mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch. Gellir dod o hyd i wybodaeth lawn yn **https://www.gov.uk/universal-credit/contact-universal-credit**.

    Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu hyfforddiant Dangos sydd ar gael o fis Ionawr 2021, i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr rheng flaen ynglŷn â'r system fudd-daliadau.

    Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynhyrchu canllaw COVID-19 Cymorth Ariannol i Unigolion sy'n cynnwys ystod eang o gysylltiadau defnyddiol (yn gywir ym mis Mawrth 2021).

- **Cyngor a gwybodaeth arall am fudd-daliadau**

  - Cyngor ar Bopeth **https://www.citizensadvice.org.uk/wales/**

    Advicelink: **0800 702 2020** or Relay UK - if you can't hear or speak on the phone, you can type what you want to say: **18001** then **0800 144 8884**

  - Cyngor Budd-daliadau Turn2us **https://www.turn2us.org.uk/Benefit-guides/Self-employment-and-benefits/Self-employment-and-benefits-Frequently-asked-ques**

**Cyllid Mynediad i Waith**

- Mae'n ddefnyddiol deall y cynllun grant Mynediad i Waith sydd â'r nod o gynorthwyo pobl anabl i gael ac aros mewn cyflogaeth. Mae Mynediad i Waith ar gael i bobl anabl hunangyflogedig yn ogystal â'r rheini sydd mewn cyflogaeth Talu Wrth Ennill. Fodd bynnag, mae yna feini prawf cymhwysedd megis nifer yr oriau a weithir yr wythnos ac a yw'r hunangyflogaeth yn hyfyw. Gall fod yn anodd i bobl anabl sy'n cychwyn busnes neu'n gweithio oriau rhan-amser cyfnewidiol fodloni'r meini prawf cymhwysedd.

- Ni fydd pawb sy'n anabl yn cael diagnosis ffurfiol a gall fod yn ddrud neu'n anodd cael asesiad. Nid yw Mynediad i Waith yn talu costau asesiadau.

- I'r rheini sydd eisoes â phecyn Mynediad i Waith, efallai y gallant ei ddefnyddio i dalu costau cymorth i fynychu cyfleoedd hyfforddi neu ddatblygiad proffesiynol os cytunwyd ar hyn ymlaen llaw gyda'u swyddog achos a bod lefel addas o gyllid ar gael. Bydd hyn yn amrywio rhwng un person a'r llall.

- Mae ystod eang o gefnogaeth yn bosibl gyda phecyn Mynediad i Waith, o dechnoleg gynorthwyol a meddalwedd arbenigol a hyfforddiant, addasiadau ergonomig i fan gwaith i gostau teithio i weithwyr cymorth cyfathrebu.
  **https://www.gov.uk/access-to-work**

# Hyfforddiant a Digwyddiadau

*"Roedd hyder isel yn rhywbeth a brofwyd gan lawer o bobl hunangyflogedig anabl ac roedd hyn wedi'i danategu gan nifer o heriau eraill a wynebwyd gan y grŵp hwn. Disgrifiodd rhai pobl anabl oes o gael eu trin yn wahanol, o gael eu hamau neu mewn rhai achosion eu gwarchod yn ormodol, o deimlo wedi'u hynysu, dioddef stigma a gwahaniaethu, a phrofi anawsterau mewn cyrchu'r math o weithgareddau a gwasanaethau y mae pobl nad ydynt yn anabl yn eu cymryd yn ganiataol."*

(Adams et al, 2019)

Mae hyder mor isel, sy'n deillio o brofiad, yn tueddu i gael ei atgyfnerthu gan lefelau is o gyrhaeddiad addysgol o'i gymharu â chymheiriaid nad ydynt yn anabl (Berthoud, 2008). O ganlyniad, gall pobl anabl sy'n cychwyn busnes fod â diffyg gwybodaeth a sgiliau busnes i raddau mwy na'u cymheiriaid nad ydynt yn anabl. Gall amharodrwydd i fynychu hyfforddiant neu ddigwyddiadau a allai fod yn ddefnyddiol ddeillio o ddiffyg hyder, pryderon ynglŷn â mynediad neu hyd yn oed ofn sut y byddent yn cael eu derbyn yn hytrach na diffyg diddordeb neu awydd i ddysgu. Efallai y bydd angen mwy o anogaeth i ysgogi ymgysylltiad â hyfforddiant a chefnogaeth ddefnyddiol.

Gall gweld pobl a allai fod â nam tebyg, neu sydd wedi wynebu'r un heriau, yn llwyddo mewn busnes fod yn galonogol iawn i entrepreneuriaid anabl. Fodd bynnag, er y gall llawer o ddigwyddiadau a gwobrau busnes farchnata eu hunain fel rhai agored i bawb, efallai na fydd entrepreneuriaid anabl yn gweld llawer o bobl eraill fel hwythau yn mynychu digwyddiadau neu'n derbyn cydnabyddiaeth mewn seremonïau gwobrwyo busnes.

Gall lleoliadau anhygyrch yn gorfforol ar gyfer hyfforddiant busnes neu ddigwyddiadau beri rhwystr sy'n atal entrepreneuriaid anabl rhag cyrchu digwyddiadau. Felly mae'n bwysig eich bod yn sicrhau bod yr holl wasanaethau neu ddigwyddiadau rydych chi'n eu cynnig yn cael eu cynnal mewn lleoliadau sy'n hygyrch yn gorfforol i alluogi entrepreneuriaid anabl i gael eu cynnwys.

Fodd bynnag, nid yw hygyrchedd wedi'i gyfyngu i rwystrau corfforol fel grisiau neu ddrysau cul sy'n rhwystro mynediad i gadeiriau olwyn. O ystyried y grwpiau o namau a amlinellir yn y rhagymadrodd, mae llawer o gamau eraill y gallwch eu cymryd i greu lle mwy cynhwysol a hygyrch drwy ystyried y canlynol::

- Capsiynau / is-deitlau caeedig
- Dehongliad Iaith Arwyddion Prydain
- Dolen glyw neu gymhorthion radio
- Gwybodaeth yn cael ei darparu mewn amrywiaeth o fformatau
- Sicrhau cydnawsedd â meddalwedd testun i lais
- Lleoliadau sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn sydd â chyfleusterau toiled cwbl hygyrch
- Darpariaethau ar gyfer gofalwyr (megis tocyn ychwanegol am ddim)
- Rhybuddion cyn unrhyw oleuadau sy'n fflachio neu sŵn uchel.
- Ystyried amseriad digwyddiadau

This is not an exhaustive list and generally communication withclients about how you can best meet their requirements is advisable.



Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac yn gyffredinol cynghorir cyfathrebu â chleientiaid ynglŷn â'r ffordd orau i chi ddiwallu eu hanghenion.

Efallai na fyddwch yn meddwl ei bod yn bwysig darparu cefnogaeth o'r fath i bobl anabl os nad oes unrhyw un sy'n mynychu'ch digwyddiad wedi nodi eu hanghenion penodol, ond gallai diffyg opsiynau hygyrchedd atal pobl anabl rhag ystyried cymryd rhan. Mae'n bwysig cofio bod llawer o namau neu gyflyrau yn anweledig, felly mae'n debygol y bydd gennych bobl anabl yn mynychu'ch digwyddiadau neu'n defnyddio'ch gwasanaethau sydd â namau ond nad ydych yn ymwybodol ohonynt.

Bydd pobl anabl yn aml yn dod ar draws yr un rhwystrau mynediad, anwybodaeth ac agweddau gwael ym mhobman. Mae hyn yn peri straen ac yn atal pobl rhag manteisio ar gyfleoedd sydd ar gael yn hawdd i bobl nad ydynt yn anabl.

I greu amgylchedd gwirioneddol gynhwysol sy'n caniatáu mynediad cyfartal i entrepreneuriaid anabl, dylech ddisgwyl y bydd pobl anabl yn mynychu ac felly'n rhoi ystyriaeth i hygyrchedd pan fyddwch yn dechrau cynllunio digwyddiadau. Bydd rhoi ystyriaeth i gostau cymorth o'r fath yn ystod cam cynllunio yn sicrhau bod pobl anabl yn gallu cyrchu'ch digwyddiadau.

# Cynghorion Ymarferol

- Efallai y bydd angen i chi annog pobl anabl i gymryd rhan mewn hyfforddiant neu ddigwyddiadau i raddau mwy na rhai grwpiau eraill o gleientiaid.
- Defnyddiwch adborth gan gleientiaid a gwybodaeth yn y canllaw hwn i annog trefnwyr digwyddiadau a hyfforddiant i fod yn rhagweithiol wrth sicrhau hygyrchedd a hyrwyddo eu digwyddiadau mewn ffordd gynhwysol.
- Os yn bosibl, canfyddwch bobl anabl sy'n rhedeg eu busnesau eu hunain sy'n barod i fod yn fodelau rôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'w cyflawniadau busnes.
- Archebwch ddehonglwyr a phalanteipyddion Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer digwyddiadau byw a deunydd pennawd sydd ar ffurf fideo.
- Sicrhewch fod pob digwyddiad yn cael ei gynnal mewn lleoliadau sy'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn ac sydd â chyfleusterau toiled cwbl hygyrch.
- Galluogwch y cyfranogwyr i ddod â'u gweithwyr cymorth i ddigwyddiadau, gan sicrhau nad yw digwyddiadau y codir tâl amdanynt yn golygu cost ychwanegol ar gyfer gweithwyr cymorth.
- Darparwch wybodaeth mewn sawl fformat a'i gwneud hi'n glir yn eich hysbysebu eich bod yn hapus i drafod anghenion hygyrchedd gyda'r mynychwyr.
- Canfyddwch a oes unrhyw ddyfarniadau yn benodol ar gyfer perchnogion busnesau anabl ac anogwch eich cleientiaid anabl i wneud cais neu enwebu eu cymheiriaid.
- Os ydych chi'n gysylltiedig â dyfarniad busnes, gwnewch yn siŵr fod y panel beirniadu yn cynrychioli ystod eang o berchnogion busnes, gan gynnwys entrepreneuriaid anabl.
- Defnyddiwch adborth gwerthuso a monitro i ofyn sut y gellid gwella mynediad ac i archwilio anghenion hyfforddiant penodol posibl na roddwyd sylw iddynt.

# Mentora a Rhwydweithio

Mae mentora, yn enwedig mentora cymheiriaid gan berson busnes arall sydd â phrofiad bywyd o fod yn berson anabl, wedi'i nodi fel dull sy'n addas iawn ar gyfer cymorth busnes i bobl anabl (Adams et al, 2019). Yn wahanol i raglenni hyfforddiant generig, mae mentora wedi'i deilwra i anghenion penodol cleientiaid fel y gall y cyfranogwyr gytuno ar gyflymder ac amlder y sesiynau mentora.

Gallai mentora cymheiriaid ddarparu cefnogaeth a chyngor ymarferol ynglŷn â rheoli llwyth gwaith, amser a disgwyliadau sy'n benodol berthnasol i brofiadau pobl anabl.

Cydnabuwyd pwysigrwydd y dull hwn gan Busnes Cymru wrth lunio'r Rhaglen Cyflymu Rhagoriaeth (Busnes Cymru, 2020). Mae mentora a hyfforddiant wedi'u gwreiddio yn y rhaglen honno.

Mae'r math hwn o gefnogaeth un i un gan berchnogion busnes anabl eraill yn arbennig o bwysig gan nad oes ffynhonnell wybodaeth ganolog ar hyn o bryd sy'n darparu'n benodol ar gyfer anghenion pobl anabl (Adams et al., 2019). Mae gwybodaeth am feithrin hyder, negodi, datgelu anabledd yn gadarnhaol a rheoli llwyth gwaith gydag iechyd cyfnewidiol yn arbennig o berthnasol i entrepreneuriaid anabl ac efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth hon mewn fformatau hygyrch. I lawer o berchnogion busnes anabl, yn enwedig y rheini sy'n dioddef o flinder cronig neu'n cael anawsterau gyda chanolbwyntio a chynnal sylw, gall y broses hon o ymchwilio a chyfuno gwahanol ffynonellau gwybodaeth i ddarganfod beth sy'n berthnasol iddynt hwy a'u busnes fod yn arbennig o heriol.

# Stori John

## Myfyriodd John ar rai o'i brofiadau cymorth busnes:

"Nid oedd gan unrhyw un y siaradais â nhw unrhyw brofiad o fyddardod o gwbl. Nid oeddent yn gwybod dim am fy myd busnes, fy nghyfleoedd busnes, fy ngweithgareddau, felly sut gallent fy nghynghori'n dda? Do, cawsom y cyngor arferol ynglŷn â chyllid, angen cynllun busnes wedi'i gostio'n llawn, rhwydweithio, creu cysylltiadau busnes, adnabod cleientiaid ac ati, ond mae popeth yn ymwneud â dogfennau ysgrifenedig, cyflwyniadau ysgrifenedig ar gyfer syniadau, ac nid yw hynny'n cyd-fynd â mi neu fyd busnes Byddar.

Y dyddiau hyn mae gen i fentor busnes ac rydw i wedi dysgu llawer ac yn parhau i wneud hynny. Yn bwysig, gall y mentor hwn gyfathrebu â mi yn llawn mewn Iaith Arwyddion Prydain ac eto nid yw'r profiad a ddaeth gydag ef i'r bwrdd yn dod o fyd y Byddar yn unig. Er mwyn i berson busnes Byddar fel fi fod yn llwyddiannus yn y brif ffrwd, mae angen i ni gael mentora ar fod yn ymwybodol o glyw, ac mae'r rhan fwyaf o fusnesau Byddar yn colli allan ar hynny, ac o bosibl ddim hyd yn oed yn gwybod hynny.


I mi, mae mentora wedi bod yn enfawr ac mae fy musnes yn tyfu a thyfu o ganlyniad i hynny. Mae dau ben bob amser yn well nag un, ond mae wedi bod yn llawer mwy buddiol na hynny. Mae'r gefnogaeth y mae'n ei darparu yn enfawr ar adegau o hunan-amheuaeth, yr ysgwydd i bwyso arni, a chael eich rhoi yn ôl ar y llwybr cywir, yn aml yn bwysig dros ben ac mae'r craffter busnes yn troi methiant yn llwyddiant ac mae'r dyfodol yn gyffrous oherwydd hynny."

Nodwyd yn gynharach fod pobl anabl yn fwy tebygol o brofi tlodi a bod mwyafrif y busnesau dan berchnogaeth anabl ar y ffin o ran hyfywedd ariannol, felly efallai y bydd entrepreneuriaid anabl yn fwy gwyliadwrus ynglŷn â gwario arian ar wasanaethau cymorth busnes. Gall hyn atgyfnerthu atyniad mentora a chefnogaeth cymheiriaid yn hytrach na mynychu digwyddiadau hyfforddi.

Er gwaethaf heriau cysylltiedig â rhwydweithio i bobl anabl, am y rhesymau a archwiliwyd eisoes, gall rhwydweithio busnes fod yn offeryn hollbwysig i entrepreneuriaid anabl. Gall y budd o ran busnes fod yr un fath ag ydyw ar gyfer unrhyw berson busnes arall. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai pobl anabl yn teimlo bod rhwydweithio yn helpu i fynd i'r afael ag unigedd a allai fod yn fwy cyffredin ymhlith y grŵp cleientiaid hwn. Gall mynd i'r afael ag unigedd wella hyder. Gall hyn arwain at fwy o ymgysylltiad â gwasanaethau cymorth busnes. Gall rhwydweithio busnes ar-lein, a ddaeth yn llawer mwy cyffredin yn ystod pandemig COVID-19, agor digwyddiadau rhwydweithio i grŵp o bobl fusnes anabl a oedd yn ei chael hi'n anodd teithio i neu gael mynediad i ddigwyddiadau rhwydweithio personol.

*"Mae llawer o bobl anabl wedi'u hynysu gan na allant fynd i ddigwyddiadau rhwydweithio oherwydd anhygyrchedd lleoliadau. Rydw i wedi teimlo ei fod yn brofiad unig iawn i fod yn berchennog busnes anabl."*

*Perchennog busnes anabl*



## Cynghorion Ymarferol

- Ystyriwch a yw eich digwyddiadau rhwydweithio a'ch rhaglenni mentora yn hygyrch i bobl anabl ac a allant gynnig unrhyw gymorth penodol, perthnasol i entrepreneuriaid anabl.
- Darganfyddwch pa raglenni mentora sy'n bodoli ar gyfer perchnogion busnesau anabl a chyfeiriwch eich cleientiaid anabl atynt.
- Lle bynnag y bo modd, nodwch fentoriaid cymheiriaid anabl ar gyfer pobl anabl.
- Ystyriwch gynnwys rhaglenni mentora a chymorth cymheiriaid fel rhan o'ch gwasanaethau hyfforddiant.
- Ystyriwch hwyluso rhaglenni mentora a digwyddiadau rhwydweithio o bell er mwyn cael gwared ar y rhwystr y gall teithio ei beri i lawer o bobl anabl.

# Mynediad

Cyfeiriwyd at fynediad drwy gydol y canllaw hwn. Gobeithio eich bod wedi sylweddoli erbyn hyn nad yw mynediad yn ymwneud â ramp i mewn i adeilad ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn yn unig, er y gall hynny fod yn bwysig. Mae mynediad yn golygu rhywbeth hollol wahanol i berson B/byddar nag ydyw i rywun sy'n dioddef o flinder cronig ar ôl triniaeth am ganser. Cynigir rhai cynghorion da i'ch helpu i wneud eich gwasanaethau'n fwy hygyrch i ystod eang o bobl anabl.

# Stori Teresa

Mae Teresa wedi gweithio i asiantaeth hyfforddi ac yn hunangyflogedig i sefydliad cymorth busnes. Mae hi wedi meithrin cyfoeth o brofiad gyda chleientiaid ledled De Cymru ac wedi cyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb i bobl sy'n gweithio ym maes cymorth busnes. Mae hyn wedi rhoi mewnwelediadau iddi i'r pwysau a'r rhwystrau sy'n wynebu entrepreneuriaid anabl yng Nghymru.

Mae llawer o gleientiaid Teresa wedi wynebu rhwystrau sy'n gysylltiedig â'u namau. Mae'r rhain wedi cynnwys disgwyliadau teuluoedd, cyfleoedd cyfyngedig o ran addysg, rhwystrau i rwydweithio a diffyg modelau rôl addas.

Mae ei phrofiad ym maes cymorth busnes wedi cynnwys targedau anhyblyg, sancsiynau am beidio â bodloni dangosyddion perfformiad allweddol a disgwyliadau isel o bobl anabl. Mae'r rhain i gyd wedi creu rhwystrau i gefnogi pobl anabl yn briodol. Roedd lleoliadau, swyddfeydd a chefnogaeth na ellir eu cyrraedd yn aml yn creu rhwystrau hefyd. Awgrymodd Teresa ei bod wedi cael mwy o lwyddiant yn cwrdd â chleientiaid mewn caffis lleol yn hytrach na'r swyddfa gan eu bod yn tueddu i fod yn fwy hygyrch a chyfforddus i gleientiaid anabl.

Cred Teresa ei bod yn bwysig i gynghorwyr busnes ddeall y system fudd-daliadau a'r cymhlethdodau a'r cyfyngiadau y gallai hunangyflogaeth eu peri i berson anabl. Mae'n awgrymu y byddai deall sut y gall Mynediad i Waith helpu entrepreneuriaid anabl a'u cefnogi i gyflwyno eu hachos i sicrhau cyllid fod yn fuddiol iawn.



# Cynghorion Ymarferol

**Ar-lein ac All-lein**

- Yn ddiofyn, cyn cyfarfodydd neu gyrsiau hyfforddi, gofynnwch i bob cleient a oes ganddynt unrhyw ofynion o ran mynediad a rhowch syniad o'r hyn y gellir ei ddarparu. Bydd llawer o bobl anabl yn glir ynglŷn â'u hanghenion cymorth ond ni fydd pawb yn gwybod beth y gallant ofyn amdano.

- Gall darpariaeth gynnwys deunyddiau ymlaen llaw mewn fformatau hygyrch, cyflymder digwyddiadau, dulliau cyflwyno a chymorth cyfathrebu.

- Efallai y bydd angen archebu rhai mathau o gefnogaeth ymhell ymlaen llaw.

- Mae blinder mewn canolbwyntio yn broblem i lawer o bobl anabl, felly cofiwch gynnwys digon o seibiannau.

- Ystyriwch sut mae angen cyflwyno gwybodaeth fel ei bod yn gynhwysol i ofynion mynediad amrywiol, gweithiwch gydag unigolion i archwilio'r atebion gorau ar eu cyfer. Defnyddiwch Gymraeg clir/Saesneg plaen ac osgoi jargon.

- Ystyriwch ganiatáu rhagor o amser ar gyfer apwyntiadau â chleientiaid anabl i'ch cynorthwyo i ddeall unrhyw rwystrau penodol sy'n bodoli i'r unigolyn hwnnw fod yn hunangyflogedig a chaniatáu amser i wybodaeth gael ei phrosesu ac i ofyn cwestiynau.

- Crynhowch bwyntiau allweddol sgwrs neu gwestiynau a ofynnir gan aelodau eraill o'r grŵp rhag ofn i unrhyw rai gael eu methu.

- Rhowch gyfleoedd i aelodau tawelach grŵp gyfrannu. Efallai y bydd angen amser ar rai pobl i brosesu gwybodaeth felly rhowch gyfle i ddilyn i fyny â chwestiynau pan fo angen.

- Byddwch yn ymwybodol o wahanol arddulliau dysgu, yn enwedig ar gyfer pobl niwrowahanol. Mae niwrowahaniaeth yn cynnwys Asperger, awtistiaeth, ADHD, dyspracsia a dyslecsia sy'n golygu bod pobl yn prosesu ac yn cymhwyso gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd.

- Ni ddylid disgwyl i gleientiaid dalu am y gefnogaeth sydd ei hangen i gyrchu gael mynediad at eich gwasanaethau. Byddwch yn glir ynglŷn â'r broses ar gyfer cymeradwyo a thalu am ofynion mynediad.

- Defnyddiwch ddull adeiladol ar gyfer nodi cryfderau a hyrwyddo'r priodoleddau cadarnhaol y gall profiad bywyd unigolyn anabl eu cynnig i fusnes. Ceisiwch osgoi gwneud rhagdybiaethau am brofiadau neu ofynion entrepreneur anabl.

- Os ydych yn awyddus i wella'ch dealltwriaeth o anabledd a gofynion mynediad, ystyriwch drefnu Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd. Dylai hwn gael ei ddarparu gan bobl anabl. Gellir dod o hyd i adnoddau sy'n benodol i nam ar-lein.



**Ar-lein**

- Mae gwahanol blatfformau fideo-gynadledda yn amrywio o ran hygyrchedd ac ymarferoldeb.

- Mae cynefindra â thechnoleg a chysylltiad rhyngrwyd dibynadwy yn amrywiol.

- Efallai y bydd rhai unigolion yn elwa o ddefnyddio'r blwch sgwrsio i gyflwyno cwestiynau neu sylwadau, yn enwedig os ydynt yn bryderus mewn lleoliadau cyhoeddus neu'n mynegi eu hunain yn well yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, gall y blwch sgwrsio darfu ar unigolion sy'n defnyddio darllenwyr sgrin i gael mynediad i'r broses fideo-gynadledda. Ceisiwch gael sgwrs ar ddechrau pob digwyddiad ar-lein i ddeall y ffordd orau i ddiwallu anghenion a allai gystadlu â'i gilydd.

- Efallai na fydd pobl sy'n defnyddio darllenwyr sgrin neu'n deialu i mewn yn gallu dangos yn hawdd eu bod yn dymuno siarad. Wrth gadeirio trafodaeth neu dderbyn cwestiynau, gwahoddwch gyfraniadau gan yr unigolion hynny yn gyntaf a chaniatáu amser i ddad-fudo.

- Crynhowch gynnwys allweddol y blwch sgwrsio bob hyn a hyn.

- Galluogwch gapsiynau awtomatig a'r gallu i gadw trawsgrifiadau lle bo hynny ar gael. Fodd bynnag, mae'r rhain yn gyfyngedig o ran cywirdeb, yn enwedig lle ceir llif y sgwrsio neu wahanol acenion. Nid yw capsiynau awtomatig yn ddwis amgen priodol i Adroddiadau Llais i Destun (STTR) na Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain, os gofynnwyd am hyn.

- Os ydych chi'n defnyddio deunydd fideo, gwnewch yn siŵr fod capsiynau / is-deitlau ar y rhain.

- Pan ddefnyddir delweddau, disgrifiwch y ddelwedd os oes angen ar gyfer unigolion sydd â nam ar eu golwg.

- Trefnwch gyflymder y cyflwyniad yn ofalus a gwiriwch yn rheolaidd fod pawb yn dilyn.

- Cynhwyswch ddigon o seibiannau a chadwch bawb wedi'u mudo os nad ydynt yn siarad.

**Mynediad mewn sefyllfa grŵp (yn bersonol)**

- Darparwch wybodaeth ymlaen llaw ynglŷn â threfn adeilad, lleoliad lifftiau, toiledau, bwyd a diod, pa mor agos ydyw at drafnidiaeth gyhoeddus a pharcio, gan gynnwys mannau bathodyn glas. Gall mapiau a lluniau o'r adeilad gynorthwyo gyda chynllunio a lleihau pryder.

- Os yw defnyddiwr cadair olwyn yn mynychu, gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu'r wybodaeth benodol sydd ei hangen arno/arni ynglŷn â mynediad. Efallai na fydd rhai lifftiau neu doiledau yn ddigon llydan ar gyfer cadeiriau olwyn modur. Mae llawer o leoliadau yn darganfod drwy brofiad anffodus iddynt gael gwybod yn anghywir eu bod yn 'hygyrch'.

- Gofynnwch i'r cleient bob amser a yw am wneud pobl eraill yn ymwybodol o'i ofynion mynediad ac, os ydyw, sut.

- Mewn lleoliad grŵp gall fod yn anodd i rai pobl ddilyn a chymryd rhan yn llif y sgwrs. Efallai na fydd hyn yn amlwg i eraill.

- Gall fod yn anodd iawn i rai pobl ddilyn hyfforddiant lle defnyddir sleidiau neu ddeunyddiau, lle rhoddir cyfarwyddiadau a lle bo angen cymryd nodiadau ar y pryd.

- Peidiwch â throi eich cefn wrth siarad. Os oes cleient byddar yn bresennol, gwiriwch ble mae angen iddo/iddi eistedd a sut orau i gefnogi eu cyfranogiad.

- Lle bo modd, darparwch ystafell dawel ar wahân i unigolion ei defnyddio os oes angen lle neu angen gorffwys.

# Practical Tips continued

**Cymorth cyfathrebu**

- Mae gan bobl anabl, byddar a niwrowahanol anghenion amrywiol, a gwahanol ddewisiadau a ffafrir ar gyfer cyfathrebu ac arddulliau dysgu. Gwiriwch yn uniongyrchol gyda'r unigolyn pa ddulliau cyfathrebu sydd orau ganddo ef/ganddi hi ac a oes darparwyr cymorth a ffafrir.

- Gall Gweithwyr Cymorth Cyfathrebu neu Gynorthwywyr Personol hwyluso cyfranogiad a/neu gymryd nodiadau.

- Mae llawer o bobl anabl a niwrowahanol yn elwa drwy gael recordiad o gyfarfodydd neu hyfforddiant i wrando yn ôl arnynt fel y gellir cofio gwybodaeth yn fwy effeithiol. Dylid hwyluso hyn lle bo hynny'n bosibl ac annog caniatâd gyda'r ddealltwriaeth bod unrhyw recordiadau at ddefnydd personol yn unig ac na fyddant yn cael eu cyhoeddi mewn unrhyw ffurf.

- Ar gyfer digwyddiadau neu gyfarfodydd hir, efallai y bydd angen i ddau ddehonglydd STTR / BSL weithio gyda'i gilydd, am yn ail bob rhyw 15 munud.

- Peidiwch â disgwyl i ffrindiau neu aelodau teulu cleientiaid ddarparu cymorth cyfathrebu.

**Darllen gwefusau**

- Defnyddiwch fannau tawel gydag arwynebau meddal i osgoi unrhyw atsain a sŵn cefndir.

- Osgowch unrhyw nodweddion gweledol a allai dynnu sylw.

- Sicrhewch fod eich wyneb i'w weld yn glir ac nad yw mewn cysgod, ceisiwch beidio â chael goleuadau llachar y tu ôl i chi.

- Siaradwch yn eich dull arferol ond yn glir. Peidiwch â gweiddi na gor-ynganu.

- Sicrhewch fod gennych sylw eich cleient cyn dechrau siarad.

- Mae gan ffonau clyfar apiau arddweud rhesymol y gellir eu defnyddio i ddarparu capsiynau bras ar gyfer lleferydd a allai helpu rhai pobl. Gall teipio neu ysgrifennu unrhyw eiriau sydd wedi'u camddeall fod yn fuddiol.

- Ailadroddwch eich hun neu ceisiwch aralleirio os nad yw gair neu frawddeg yn cael ei deall.

**Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL)**

- Nid yw pob person byddar yn defnyddio iaith arwyddion. Bydd rhai defnyddwyr BSL yn defnyddio lleferydd, rhai ddim. Gall lefelau llythrennedd amrywio.

- Gellir trefnu dehonglwyr ar gyfer cefnogaeth bersonol ac o bell.

- Yn aml mae galw mawr amdanynt ac mae angen eu harchebu cymaint ymlaen llaw â phosibl (weithiau wythnosau).

- Efallai y byddai'n well gan ddefnyddwyr BSL unigol ddehonglwyr a ffafrir ganddynt gan fod tafodieithoedd yn amrywio ond gwnewch yn siŵr eich bod yn trefnu dehonglwyr cwbl gymwys.

- Pan fyddwch yn defnyddio dehonglwyr, siaradwch â'ch cleient, nid â'r dehonglydd. Bydd y dehonglydd yn trosglwyddo'r sgwrs yn ôl yr angen. Gofynnwch sut y gallwch chi gefnogi cyfathrebu effeithiol os nad ydych chi wedi gweithio gyda dehonglydd o'r blaen.

- Siaradwch mewn brawddegau cyflawn gydag ambell i seibiant i wirio bod y dehonglydd yn cadw i fyny. Cynhwyswch seibiannau gorffwys.

- Mae cael rhywfaint o sgiliau BSL sgyrsiol yn fanteisiol ac fe'i croesawir ond peidiwch â cheisio cynnal cyfarfod gan ddefnyddio'ch sgiliau BSL eich hun oni bai eich bod yn rhugl neu fod gennych gymwysterau dehongli.

- Gallwch ddod o hyd i ddehonglwyr cymwys ar wefan ASLI **https://asli.org.uk/**

- Os oes angen cyfieithu deunyddiau i BSL, gellir dod o hyd i gyfieithwyr cymwys trwy Gyngor Pobl Fyddar Cymru **https://www.wcdeaf.org.uk/**

- Efallai y bydd angen gwefuslefarydd ar rai unigolion, sy'n gweithio mewn ffordd debyg i ddehonglwyr BSL: **https://www.lipspeaking.co.uk/**

- Cyrsiau blasu ac achrededig BSL **http://www.deaf-friendly.co.uk/services/** or local colleges

**Adroddwyr Llais i Destun (STTR) / Palanteipyddion / Capsiynwyr Byw**

- Wedi'i ddarparu'n bersonol neu o bell, defnyddir bysellfwrdd ffonetig i gynhyrchu trawsgrifiadau byw cyflym a chywir iawn y gellir eu cyrchu trwy sgrin dabled (yn bersonol) neu trwy ddefnyddio cyswllt URL sy'n agor mewn ffenestr porwr (ar-lein).

- Mae'r rhain yn weithwyr proffesiynol medrus y mae galw mawr amdanynt, fel y mae dehonglwyr BSL. Archebwch cyn belled ymlaen llaw â phosibl.

- Cynhwyswch gyfnodau i orffwys ar gyfer cyfarfodydd hir.

- Gallwch archebu yma: **https://avsttr.org.uk/**



# Atodiad 1 – Rhestr Geirfa

**b/Byddar**

Efallai y bydd pobl fyddar sydd wedi tyfu i fyny yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu hiaith gyntaf ac sy'n rhan o'r Gymuned Fyddar yn ystyried eu hunain yn rhan o leiafrif ieithyddol a diwylliannol, yn hytrach nag yn berson anabl. Mae'r rhwystrau y maent yn eu profi yn ganlyniad i iaith. Mae tebygrwydd â phobl sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mae llythyren fach 'b' yn byddar yn gyffredinol yn cyfeirio at bobl sydd â nam ar eu clyw nad ydynt yn rhan o'r Gymuned Fyddar.

**Sefydliadau Pobl Anabl**

Sefydliad sy'n cael ei arwain, a'i gynnal, gan bobl anabl. Cofiwch nad yw llawer o 'sefydliadau anabledd' ac elusennau yn cael eu harwain gan bobl anabl. Anabledd Cymru yw'r corff ymbarél ar gyfer sefydliadau pobl anabl yng Nghymru. **www.disabilitywales.org**

**Trallod Meddyliol**

Mae'r ymadrodd hwn yn dynodi'r dull model cymdeithasol o drafod iechyd meddwl. Defnyddir trallod meddiol fel term i gwmpasu popeth o bryder ysgafn i Anhwylder Straen Wedi Trawma i iselder cronig difrifol a phroblemau iechyd meddwl eraill.

**Niwrowahaniaeth**

Mae niwrowahaniaeth yn cyfeirio at y gwahanol ffyrdd y mae'r ymennydd yn trefnu ac yn dehongli gwybodaeth. Mae niwrowahaniaeth yn cynnwys ADHD, awtistiaeth, dyspracsia, dyslecsia a Syndrom Tourette. Er y bydd gan bawb ddiddordebau, cryfderau a heriau gwahanol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn **niwronodweddiadol**, sy'n golygu eu bod yn gweithredu ac yn prosesu gwybodaeth yn y ffordd y mae cymdeithas yn ei ddisgwyl.

**Y Model Meddygol o Anabledd**

Ystyrir fod pobl anabl nad ydynt yn cyfranogi mewn cymdeithas yn ganlyniad uniongyrchol i fod â nam ac nid o ganlyniad i nodweddion cymdeithas y gellir eu newid. Mae cymdeithas yn canolbwyntio ar 'wneud iawn' i bobl â namau am yr hyn sy'n 'anghywir' gyda'u cyrff. Gwneir hyn trwy fudd-daliadau lles 'arbennig' a darparu gwasanaethau 'arbennig' ar wahân. Yn y bôn, mae pobl anabl yn cael eu hystyried yn broblem i'w datrys.

**Y Model Cymdeithasol o Anabledd**

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd o'r farn y gallai fod gan bobl namau ond eu bod yn cael eu hanablu gan gymdeithas. Datblygwyd y Model Cymdeithasol gan bobl anabl eu hunain. Dangosodd eu profiadau iddynt fod y rhan fwyaf o'r problemau a wynebir ganddynt yn cael eu hachosi gan y ffordd y mae cymdeithas wedi'i threfnu. Nid eu namau na'u cyrff yw'r broblem. Mae rhwystrau cymdeithasol yn cynnwys agweddau pobl tuag at anabledd a rhwystrau corfforol a threfniadol.

# Atodiad 2 – Ffynonellau cyfeirio a darllen pellach

Roedd yr holl ddolenni yn weithredol pan gyrchwyd hwy ar 12 Mawrth 2021.


Adams, L., Cartmell, R., Foster, R., Foxwell, M., Holker, L., Person, A., Stewart, G., Cowling, M. a Kitching, J. (2019). Understanding self-employment for people with disabilities and health conditions. Adran Gwaith a Phensiynau. Ar gael yn **https://www.gov.uk/government/publications/self-employment-for-people-with-disabilities-and-health-conditions**

Barry, A., Bennett, S., Collingwood, S., Drake, B., Easton, S., Goulden, C., Innes, D., Leese, D., Matejic, P., Schwendel, G. a Wenham, A. (2020). UK Poverty 2019/20. Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael yn **https://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2019-20**

Berthoud, R. (2008) Disability Employment Penalties in Britain, Work, Employment and Society, 22(1), 129-148.

Boylan, A. a Burchardt, T. (2003). Barriers to Self-Employment for Disabled People. Small Business Service, Llundain.

Busnes Cymru. (2020). Rhaglen Cyflymu Rhagoriaeth – Hyrwyddo amrywiaeth mewn entrepreneuriaeth yng Nghymru. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn **https://businesswales.gov.wales/growth/agp-excelerator**

Drakopoulou-Dodd. (2015). Disabled entrepreneurs: rewarding work, challenging barriers, building support. International Public Policy Institute, Prifysgol Strathclyde. Ar gael yn **https://pure.strath.ac.uk/ws/portalfiles/portal/43354405/Drakopoulou_DoddS_IPPI_2015_Disabled_entrepreneurs_rewarding_work_challenging_barriers_building_support.pdf**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. (2021). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael yn **https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/**

Halabisky, D. a Potter, J. (2014). Policy Brief on Entrepreneurship for People with Disabilities. OECD / Undeb Ewropeaidd. Ar gael yn **https://www.oecd.org/cfe/leed/Policy-brief-entrepreneurship-people-disabilities.pdf**

Kitching, J. (2014). Entrepreneurship and Self-Employment by People with Disabilities. OECD. Ar gael yn **https://www.oecd.org/cfe/leed/background-report-people-disabilities.pdf**

Mota, I., Marques, C. a Sacramento, O. (2020), Handicaps and new opportunity businesses: what do we (not) know about disabled entrepreneurs?, Journal of Enterprising Communities: People and Places in the Global Economy,14(3), 321-347

StatsCymru. (2020a). Anabledd yn ôl oedran a rhyw. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/disabilitystatus-by-age-sex**

StatsCymru. (2020b). Rhagfynegiadau poblogaeth fesul awdurdod lleol ac oedran. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-age**

Tucker, J. a Norris, D. (2018). Rough Justice - Problems with monthly assessment of pay and circumstances in universal credit, and what can be done about them. Child Poverty Action Group. Ar gael yn **https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/CPAG-2018-Rough-justice.pdf**

Waddell G. a Burton A.K. (2006). 'Is work good for your health and wellbeing?',TSO, 31-38, gellir ei gyrchu yn **https://www.gov.uk/government/publications/is-work-good-for-your-health-and-well-being**

Llywodraeth Cymru. (2019a). Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol - Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu. Ar gael yn **https://gov.wales/action-disability-right-independent-living-framework-and-action-plan**

Llywodraeth Cymru. (2019b). Cynllun Cyflogadwyedd. Ar gael yn **https://gov.wales/employability-plan**